Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

SICRHAU GWELLIANT TRWY AROLYGU ANNIBYNNOL A GWRTHRYCHOL

Arolygiad o gydymffurfiad â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a Rheoliadau Diwygiedig Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2006 (IR(ME)R):

Adrannau Delweddu Diagnostig:

Ysbyty Coffa Victoria
Ysbyty Coffa'r Rhyfel Aberhonddu
Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais

Rhan o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys

Dyddiad yr Arolygiad: Ionawr 2010
Dyddiad Cyhoeddi: Mehefin 2010

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Ffordd Fan
CAERFFILI
CF83 3ED

Ffôn: 029 2092 8850
Ffacs: 029 2092 8877

www.hiw.org.uk

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2010
E6130910

Adolygu i Ba Raddau y Rhoddwyd Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a Rheoliadau Diwygiedig Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2006 (IR(ME)R) ar waith.

Sefydliad:	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Safleoedd a archwiliwyd:	Ysbyty Coffa Victoria Ysbyty Coffa'r Rhyfel Aberhonddu Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais
Dyddiad yr Arolygiad:	27-29 Ionawr 2010

Mae'r adroddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan yn www.hiw.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Tŷ Bevan

Parc Busnes Caerffili

Heol y Fan

Caerffili

CF83 3ED

Ffôn: 029 2092 8850

Ffacs: 029 2092 8877

Cynnwys

		Rhif Tud.
1.	Cyflwyniad - Gorfodi'r Rheoliadau	1
2.	Yr Arolygiad – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	3
3.	Gwybodaeth am Weithgareddau a Staffio	5
4.	Canfyddiadau ac Argymhellion Allweddol	9
	Atodiad A: Gwybodaeth am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	13
	Atodiad B: Adborth IR(ME)R yn dilyn yr Arolygiad	15

Pennod 1. Cyflwyniad - Gorfodi'r Rheoliadau

Ar ran Gweinidogion Cymru, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn asesu i ba raddau y cydymffurfir â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, sef IR(ME)R, fel y'u diwygiwyd yn 2006. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros orfodi'r rheoliadau o'r Adran Iechyd i Weinidogion Cymru ar 1 Tachwedd 2006, ac mae AGIC yn cyflawni'r swyddogaeth hon ar eu rhan.

Diben y rheoliadau yw:

- Diogelu cleifion rhag cael eu datguddio'n ormodol neu'n amhriodol i ymbelydredd anfwriadol, a sicrhau, yn y ddau achos, fod y risg yn sgil yr ymbelydredd yn cael ei hasesu o'i chymharu â'r budd clinigol.
- Sicrhau nad yw cleifion yn cael dim mwy o ymbelydredd nag sydd ei angen ar gyfer cyflawni'r budd a ddymunir o fewn cyfyngiadau technoleg gyfredol.
- Diogelu gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni ymchwil meddygol, biomeddygol, diagnostig neu therapiwtig, yn ogystal â'r rhai sy'n cael eu datguddio am resymau meddygol-gyfreithiol.

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o ganfyddiadau ein harolygiad o'r adrannau delweddu diagnostig yn:

Ysbyty Coffa Victoria.
Ysbyty Coffa'r Rhyfel Aberhonddu.
Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais.

Mae ein hadroddiad arolygu wedi ei seilio ar drafodaethau gyda'r staff, ymweliadau arsylwi â lleoliadau clinigol, a thystiolaeth a ddarparwyd gan y sefydliad cyn yr arolygiad, gan gynnwys ffurflen hunanasesu.

Pennod 2. Yr Arolygiad - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Yn ystod 27-29 Ionawr 2010, cynhaliwyd asesiad o'r adrannau delweddu diagnostig yn yr ysbytai canlynol:

- Ysbyty Coffa Victoria.
- Ysbyty Coffa'r Rhyfel Aberhonddu.
- Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais.

Mae'r tri ysbyty yn rhan o Fwrdd Iechyd Addysgu (BIA) Powys, a chynhaliwyd yr arolygiad gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), gyda chyngor gan staff yr Asiantaeth Diogelu Iechyd (HPA). Roedd yr ymweliad yn rhan o raglen arolygu reolaidd AGIC, a chyn yr ymweliad, roedd yn ofynnol i bob adran lenwi holiadur hunanasesu a darparu copïau i AGIC o'r holl bolisïau a gweithdrefnau sydd wedi eu sefydlu. Defnyddiwyd y wybodaeth hon i benderfynu ar bwyslais yr arolygiad, ac yn enwedig, trafodaethau gydag aelodau allweddol o'r staff a oedd yn gweithio yn yr adrannau.

Pennod 3. Gwybodaeth am Weithgareddau a Staffio

Ysbyty Coffa Victoria

Mae Ysbyty Coffa Victoria yn darparu gwasanaeth delweddu diagnostig ar gyfer poblogaeth leol o oddeutu 6,647. Mae'r ysbyty wedi ei leoli yn y Trallwng.

Mae'r adran delweddu diagnostig yn cynnal oddeutu 6,000 o weithdrefnau radiograffeg 'ffilm blaen' cyffredinol bob blwyddyn. Mae'r adran hefyd yn cynnal gweithdrefnau Fflworosgopeg a Sganio Uwchsain Meddygol a Chyngeni.

O ran y staffio, mae'r adran wedi ei hariannu ar gyfer y canlynol:

3.4 o Radiograffyddion Cyfwerth â Llawn Amser (WTE).
1.5 o Gynorthwywyr WTE (ar gyfer gwasanaeth gogledd Powys).
2 Oruchwyliwr rhan-amser Diogelu rhag Ymbelydredd.

Mae gan yr ysbyty Gytundeb Lefel Gwasanaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer Ffisiolegwyr a Radiolegwyr Ymgynghorol. Mae'r Radiolegwyr Ymgynghorol yn darparu tri sesiwn bob mis yn y safle, ond mae cymorth bob amser ar gael o'r tu allan i'r safle.

Ysbyty Coffa'r Rhyfel Aberhonddu

Mae Ysbyty Coffa'r Rhyfel Aberhonddu yn darparu gwasanaeth delweddu diagnostig ar gyfer poblogaeth leol o oddeutu 8,036. Mae'r ysbyty wedi ei leoli yn Aberhonddu.

Mae'r adran delweddu diagnostig yn cynnal oddeutu 5,000 o weithdrefnau radiograffeg 'ffilm blaen' cyffredinol bob blwyddyn. Mae'r adran hefyd yn cynnal gweithdrefnau Fflworosgopeg a Sganio Uwchsain Meddygol a Chyn-geni, yn ogystal â gweithdrefnau Deintyddol.

O ran y staffio, mae'r adran wedi ei hariannu ar gyfer y canlynol:

2.1 o Radiograffyddion Cyfwerth â Llawn Amser (WTE).
0.8 o Oruchwylwyr Diogelu rhag Ymbelydredd WTE.
1 Swyddog Deintyddiaeth Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol WTE.

Mae gan yr ysbyty Gytundeb Lefel Gwasanaeth â Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan ar gyfer Radiolegwyr Ymgynghorol sy'n darparu un sesiwn yr wythnos yn y safle, ond mae cymorth bob amser ar gael o'r tu allan i'r safle. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn sicrhau bod staff cyflenwi ar gael ar gyfer absenoldebau oherwydd salwch, ac mae radiolegydd yn cael ei gynnwys yn y rota i gyflenwi ar benwythnosau. Mae gan yr ysbyty hefyd Gytundeb Lefel Gwasanaeth ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar gyfer cymorth Ffisegydd.

Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais

Mae Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais yn darparu gwasanaeth delweddu diagnostig ar gyfer poblogaeth leol o oddeutu 8,128. Mae'r ysbyty wedi ei leoli yn Ystradgynlais.

Mae'r adran delweddu diagnostig yn cynnal oddeutu 5,000 o weithdrefnau radiograffeg 'ffilm blaen' cyffredinol bob blwyddyn. Mae'r adran hefyd yn cynnal gweithdrefnau Sganio Uwchsain Meddygol a Chyn-geni.

O ran y staffio, mae'r adran wedi ei hariannu ar gyfer y canlynol:

1.0 o Radiograffyddion Uwch Ymarferydd Cyfwerth â Llawn Amser (WTE).
0.6 o Radiograffyddion WTE.
1.0 o Oruchwylwyr Diogelu rhag Ymbelydredd WTE.
1.0 o Gynorthwywyr Radiograffyddion WTE.

Mae gan yr ysbyty Gytundeb Lefel Gwasanaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar gyfer Radiolegwyr Ymgynghorol sy'n darparu un sesiwn yr wythnos yn y safle, ond mae cymorth bob amser ar gael o'r tu allan i'r safle. Mae'r trefniant hwn hefyd yn cynnwys cymorth Ffisegydd, pan fo angen.

Pennod 4. Canfyddiadau ac Argymhellion Allweddol

Gwelsom fod y tair adran delweddu diagnostig i gyd yn cydymffurfio â Rheoliadau IR(ME)R 2000 a'r diwygiadau canlynol yn 2006.

Fe'n sicrhawyd bod y gweithdrefnau allweddol wedi eu sefydlu a'u bod yn cydymffurfio â'r gofynion rheoliadol. Fodd bynnag, mae angen gwneud mân newidiadau i Drefniadau Gweithredu Safonol a Pholisi Ymbelydredd Ïoneiddio y Bwrdd Iechyd Addysgu, er mwyn sicrhau bod eu diben yn eglur, y cynnwys yn berthnasol a'u bod yn adlewyrchu'r arferion yn y Bwrdd Iechyd Addysgu.

Yn ystod yr ymweliad, adroddodd y gwasanaeth nad oedd ganddynt swyddi gwag tymor hir; fodd bynnag, nid oedd swydd flaenorol, 'Pennaeth Radiograffeg' y gwasanaethau ar draws Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn bodoli mwyach yn y strwythur staffio. O safbwynt proffesiynol, dywedodd aelodau o staff yn yr adrannau fod hyn wedi achosi cryn drafferthion, ond o'n profiad ni ar adeg yr arolygiad, roedd yn amlwg nad oedd hyn yn effeithio'n negyddol ar arfer clinigol. Roedd y Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio, a oedd yn gyfrifol am reoli'r adrannau ar adeg yr ymweliad, yn gweithio gyda'r timau, ac mae wedi datblygu ystod o sgiliau ac arbenigedd ers bod yn ei swydd. Mae'r lefel a'r math o gymorth proffesiynol a geir gan Fyrddau Iechyd cyfagos yn ychwanegu at hyn ymhellach.

Trwy gydol yr arolygiad, roedd uwch aelodau o staff Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, ynghyd â staff Byrddau Iechyd cyfagos, ar gael i drafod gyda'r tîm arolygu. Roedd yr ymgysylltiad cadarnhaol hwn yn dangos y berthynas waith gref a oedd yn bodoli rhwng Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a'r Byrddau Iechyd cyfagos a oedd yn ategu'r gwasanaethau hyn. Roedd yn amlwg fod yr holl adrannau yn canolbwyntio o ddifrif ar yr unigolyn ac ar ddiogelu rhag ymbelydredd. Wrth archwilio'r cofnodion hyfforddi a thrafod ag aelodau'r staff, gwelwyd yn amlwg fod y staff yn cael hyfforddiant digonol, ac roedd y cofnodion hyfforddi yn gynhwysfawr ac yn cael eu cadw i safon uchel iawn.

Roedd y staff yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau, ac roeddent yn gweithio yn unol â gweithdrefnau ysgrifenedig. Yn benodol, gwelsom dystiolaeth dda o archwilio yn y Trallwng, gan gynnwys archwiliadau misol o gardiau cais.

Mae angen i'r adrannau symud ymlaen erbyn hyn, er mwyn datblygu mwy ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ganddynt, a cheir mwy o wybodaeth am hyn yn Atodiad B. Nodir yr argymhellion cyffredinol ar gyfer y Bwrdd Iechyd Addysgu isod:

Rheoliad	Argymhellion Allweddol
	Dylid nodi cyfrifoldeb ac ymgysylltiad y cyflogwr yn eglur yn y Polisi Diogelu rhag Ymbelydredd, gan fynegi llinellau clir o ddirprwyo dyletswyddau i unigolion.
Atodlen 1b	Mae angen ffurfioli'r broses o 'Hawliau' ar gyfer y rhai â dyletswyddau. Dylai hyn gynnwys cwmpas arferion ar gyfer pob unigolyn â dyletswydd, a dylid sicrhau bod hyfforddiant digonol ar gael ar ei gyfer.
Atodlen 1k	Mae angen datblygu Gweithdrefn (k) yn Atodlen 1 y rheoliadau sy'n ymwneud â lleihau maint y dosau damweiniol neu anfwriadol a roddir i gleifion, a gwneud dosau o'r fath yn llai tebygol.
Rheoliad 11(1)	Yn Ysbyty Aberhonddu, mae angen sicrhau bod gweithredwyr radiograffig yn parhau i fod yn ddigon galluog i gynnal archwiliadau ar du mewn y geg oherwydd y nifer fechan ohonynt a gynhelir.
	Yn ysbyty Aberhonddu hefyd, roedd angen egluro sut yr oedd y rhai â dyletswydd yn cael eu dynodi ar y cerdyn cais, ac mae angen i hyn hefyd fod yn unol â gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr.
	Yn Ysbyty Ystradgynlais, mae angen cymryd camau i fynd i'r afael â'r broblem o feddygon teulu yn cyflwyno cardiau cais anghyflawn wrth atgyfeirio.
	Mae angen adlewyrchu sylwadau unigol yn y gweithdrefnau ysgrifenedig (gweler Atodiad B).

Atodiad A. Ynglŷn ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru [1] (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r corff rheoleiddio annibynnol ar gyfer pob gwasanaeth gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar:

- Wneud cyfraniad sylweddol i wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru pa un ai fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalydd, perthynas neu weithiwr cyflogedig.
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd yr adolygir gwasanaethau iechyd.
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, berthnasol a rhwydd cael gafael arni am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Swyddogaeth graidd AGIC yw adolygu ac archwilio sefydliadau'r GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn darparu sicrwydd annibynnol i gleifion, y cyhoedd, Llywodraeth Cynulliad Cymru a darparwyr gofal iechyd bod gwasanaethau yn ddiogel ac o ansawdd da. Adolygir gwasanaethau o'u cymharu ag amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau a gyhoeddwyd. Yn rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau a'r camau sydd eu hangen i gyflawni hyn. Os bydd angen, bydd AGIC hefyd yn cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig lle y mae'n ymddangos bod diffygion systemig wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, er mwyn sicrhau y gwneir gwelliannau ac y dysgir gwersi'n gyflym. Yn ogystal, AGIC yw'r Awdurdod Arolygu Lleol ar gyfer goruchwyliaeth statudol bydwragedd, ac mae'n rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru.

[1] Ar ran Gweinidogion Cymru, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn asesu cydymffurfiad â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, sef IR(ME)R, fel y'u diwygiwyd yn 2006. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros orfodi'r rheoliadau o'r Adran Iechyd i Weinidogion Cymru ar 1 Tachwedd 2006, ac mae AGIC yn cyflawni'r swyddogaeth hon ar eu rhan.

Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru, ac er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae protocolau wedi eu sefydlu ar gyfer diogelu ei hannibyniaeth weithredol. Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC yn deillio o'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.
- Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig.
- Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Iechyd Meddwl 2007.
- Goruchwyliaeth Statudol Bydwragedd fel y nodir yn Erthygl 42 a 43 Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.
- Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a Rheoliadau Diwygio 2006.

Mae AGIC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau a chyrff rheoleiddio eraill wrth gynnal adolygiadau traws-sector mewn gofal cymdeithasol, addysg a chyfiawnder troseddol, ac wrth ddatblygu dulliau mwy cymesur a chydgysylltiol ar gyfer adolygu a rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru.

Atodiad B	Rheoliad	Tystiolaeth	Cydymffurfiad
GWEITHREDU	3	Bydd y Rheoliadau hyn yn berthnasol i'r datguddiadau meddygol canlynol - (a) datguddio cleifion fel rhan o'u diagnosis neu driniaeth meddygol eu hunain; (b) datguddio unigolion fel rhan o wyliadwriaeth iechyd galwedigaethol; (c) datguddio unigolion fel rhan o raglenni sgrinio iechyd; (d) datguddio cleifion neu unigolion eraill sy'n cymryd rhan wirfoddol mewn rhaglenni ymchwil meddygol neu fiomeddygol, diagnostig neu therapiwtig; (e) datguddio unigolion fel rhan o weithdrefnau meddygol-gyfreithiol.	Wedi ei nodi yn y Polisi Ymbelydredd Ïoneiddio 1.2	Yn Cydymffurfio
GWEITHDREFNAU	4 (1) a	Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefnau ysgrifenedig wedi eu sefydlu ar gyfer datguddiadau meddygol, gan gynnwys y gweithdrefnau a nodir yn Atodlen 1, a rhaid i'r cyflogwr hefyd gymryd camau i sicrhau bod yr ymarferydd a'r gweithredwr yn cydymffurfio â hwy; neu	Mae gweithdrefnau ysgrifenedig wedi eu sefydlu heblaw am y rhai ar gyfer Atodlen 1k Mae'n rhaid nodi bod peth o gynnwys y weithdrefn hon ar gael ymysg y gweithdrefnau eraill	Angen gwelliannau
HAWLIAU	Atodlen 1b)	weithdrefnau ar gyfer dynodi unigolion sydd â'r hawl i weithredu fel atgyfeiriwr neu ymarferydd neu weithredwr;	Mae Gweithdrefn C wedi ei sefydlu ond mae angen dogfennu proses hawliau eglur, i gynnwys: • Pwy sy'n rhoi'r hawl i bob unigolyn â dyletswydd, gan gynnwys yr MPE, a sut y mae'r Cyflogwr yn dirprwyo'r ddyletswydd hon • Sut y gweithredir yr hawl • Pa ddogfennau a ddefnyddir, a ble y maent ar gael • Mae angen cwmpas arferion cysylltiedig hefyd ar gyfer pob unigolyn â dyletswydd • Beth y mae hyfforddiant digonol ar gyfer ymarferwyr a gweithredwyr yn ei olygu? • Sut yr asesir cymhwysedd yn y lle cyntaf a sut yr asesir cymhwysedd a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) yn barhaus?	Angen gwelliannau

Atodiad B	Rheoliad	Tystiolaeth	Cydymffurfiad
ATGYFEIRIO	4 (3) a	(rhaid i'r cyflogwr sefydlu) argymhellion ynglŷn â'r meini prawf atgyfeirio ar gyfer datguddiadau meddygol, gan gynnwys dosau'r ymbelydredd, a rhaid iddo sicrhau bod y rhain ar gael i'r atgyfeiriwr;	Gweithdrefn D 4 Mae angen cynnwys meini prawf atgyfeiriadau deintyddol a sut y sicrheir eu bod ar gael i'r atgyfeirwyr hyn	Yn Cydymffurfio
	5 (5)	Rhaid i'r atgyfeiriwr ddarparu digon o ddata meddygol i'r ymarferydd (megis gwybodaeth ddiagnostig flaenorol neu gofnodion meddygol) sy'n berthnasol i'r datguddiad meddygol y gofynnir amdano gan yr atgyfeiriwr, er mwyn i'r ymarferydd allu penderfynu pa un a oes budd clir digonol, fel sy'n ofynnol dan reoliad 6(1)(a)	Trefniadau Gweithredu Safonol yng Ngweithdrefn Radiograffeg D 4 (tudalen 7)	Yn Cydymffurfio

Atodiad B	Rheoliad	Tystiolaeth	Cydymffurfiad
ADNABYDDIAETH	Atodlen 1a)	gweithdrefnau i nodi'n gywir pwy yw'r unigolyn y bwriedir ei ddatguddio i ymbelydredd ïoneiddio;	Gweithdrefn A Dylid ystyried cynnwys datganiad sy'n nodi na ddylid cynnal y datguddiad, oni bai dan amgylchiadau eithriadol, os na ellir cadarnhau pwy yw'r unigolyn dan sylw	Yn Cydymffurfio
BEICHIOGRWYDD	Atodlen 1d)	gweithdrefnau ar gyfer holi menywod sydd mewn oed i gael plant, er mwyn cadarnhau pa un a yw'r fenyw yn feichiog, neu a allai fod yn feichiog neu'n bwydo ar y fron;	Gweithdrefn B Mae angen diweddaru'r weithdrefn i adlewyrchu canllawiau presennol yr Asiantaeth Diogelu Iechyd (HPA), a chynnwys y camau y byddai angen eu cymryd pe byddai plentyn yn dweud ei bod yn feichiog	Yn Cydymffurfio
	6 (1) e	Ni chaiff unrhyw unigolyn gynnal datguddiad meddygol oni bai ei fod wedi gofyn, mewn achos menyw sydd mewn oed i gael plant, a yw hi'n feichiog neu'n bwydo ar y fron, os yw hynny'n berthnasol.	Gweithdrefn B adran 1[af] Awgrymir newid y gair 'cleifion' ym mrawddeg olaf y paragraff 1[af] i 'menywod'	Yn Cydymffurfio
	6 (3) c i	rhaid i'r ymarferydd sy'n cyfiawnhau datguddiad yn unol â pharagraff (1)(a) roi sylw arbennig i – faint o frys sydd i gynnal y datguddiad, pan fo'n briodol, mewn achosion sy'n ymwneud â – menyw lle na ellir eithrio beichiogrwydd, yn enwedig os yw'n cynnwys yr abdomen a'r pelfis, gan ystyried y datguddiad i'r ddarpar fam ac i'r plentyn sydd heb ei eni; a	Gweithdrefn B 5[ed] paragraff Gweithdrefn F 3	Yn Cydymffurfio

Atodiad B		Rheoliad	Tystiolaeth	Cydymffurfiad
	6 (3) c ii	rhaid i'r ymarferydd sy'n cyfiawnhau datguddiad yn unol â pharagraff (1)(a) roi sylw arbennig i – fenyw sy'n bwydo ar y fron ac sy'n cael datguddiad meddygaeth niwclear, gan ystyried y datguddiad i'r fenyw ac i'r plentyn.	Amherthnasol	
	7 (7) e	Optimeiddio – rhaid i'r ymarferydd a'r gweithredwr roi sylw arbennig – pan fo'n briodol, i fenywod lle na ellir eithrio beichiogrwydd ac sy'n cael datguddiad meddygol, yn enwedig os yw'n cynnwys yr abdomen a'r pelfis, gan ystyried y datguddiad i'r ddarpar fam ac i'r plentyn sydd heb ei eni; a	Gweithdrefn B Menywod beichiog paragraff 1[af]	Yn Cydymffurfio
	7 (7) f	Optimeiddio – rhaid i'r ymarferydd a'r gweithredwr roi sylw arbennig, pan fo'n briodol, i fenywod sy'n bwydo ar y fron ac sy'n cael datguddiadau meddygaeth niwclear, gan ystyried y datguddiad i'r fenyw ac i'r plentyn.	Amherthnasol	
CYFIAWNHAU AC AWDURDODI	6 (1) a	Ni chaiff unrhyw unigolyn gynnal datguddiad meddygol oni bai – bod yr ymarferydd wedi ei gyfiawnhau ar y sail ei fod yn dangos budd clir digonol gan roi sylw priodol i'r materion a nodir ym mharagraff (2); a	Gweithdrefn F	Yn Cydymffurfio
	6 (1) b	Ni chaiff unrhyw unigolyn gynnal datguddiad meddygol oni bai – bod yr ymarferydd wedi ei awdurdodi neu, pan fo paragraff (5) yn berthnasol, bod y gweithredwr wedi ei awdurdodi;	Gweithdrefn F 4	Yn Cydymffurfio
	6 (2) a	Y materion y cyfeirir atynt ym mharagraff 6 (1)(a) yw – amcanion penodol y datguddiad, a nodweddion yr unigolyn dan sylw;	Gweithdrefn F 2 Mae angen cynnwys nodweddion yr unigolyn	Yn Cydymffurfio
	6 (2) b	Y materion y cyfeirir atynt ym mharagraff 6 (1)(a) yw – yr holl fuddiannau diagnostig neu therapiwtig posibl, gan gynnwys y buddiannau uniongyrchol i iechyd yr unigolyn a'r buddiannau i'r gymdeithas, o ganlyniad i'r datguddiad;	Gweithdrefn F 2 Mae angen cynnwys y budd i'r gymdeithas	Yn Cydymffurfio
	6 (2) c	Y materion y cyfeirir atynt ym mharagraff 6 (1)(a) yw – y niwed unigol y gallai'r datguddiad ei achosi; a	Gweithdrefn F 2	Yn Cydymffurfio
	6 (2) d	Y materion y cyfeirir atynt ym mharagraff 6 (1)(a) yw – effeithlonrwydd, buddiannau a risg technegau eraill sydd ar gael, sydd â'r un amcan ond sy'n golygu dim neu lai o ddatguddiad i ymbelydredd ïoneiddio.	Gweithdrefn F 2	Yn Cydymffurfio

Atodiad B	Rheoliad		Tystiolaeth	Cydymffurfiad
	6 (4)	Wrth benderfynu pa un i gyfiawnhau datguddiad dan baragraff (1)(a) neu beidio, rhaid i'r ymarferydd ystyried unrhyw ddata a ddarperir gan yr atgyfeiriwr, yn unol â rheoliad 5(5), a rhaid iddo ystyried data o'r fath er mwyn osgoi unrhyw ddatguddiad diangen.	Gweithdrefn F 1	Yn Cydymffurfio
	6 (5)	Pan nad yw'n ymarferol i'r ymarferydd awdurdodi datguddiad fel sy'n ofynnol ym mharagraff (1)(b), rhaid i'r gweithredwr wneud hynny yn unol â'r canllawiau a ddarperir gan yr ymarferydd.	Fe'n hysbyswyd y cyfiawnheir yr holl geisiadau gan ymarferydd, ac o ganlyniad, nid oes angen canllawiau ar gyfiawnhau	Yn Cydymffurfio
	5 (2)	Yr ymarferydd fydd yn gyfrifol am ddatguddiad meddygol, ac unrhyw agweddau eraill ar ddatguddiad meddygol y darperir ar eu cyfer yn y Rheoliadau hyn	Gweithdrefn F 1	Yn Cydymffurfio
PROTO -COLAU	4 (2)	Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod protocolau ysgrifenedig wedi eu sefydlu ar gyfer pob math o arfer radiolegol safonol ar gyfer pob darn o offer.	Dangoswyd bod hyn yn wir yn yr adrannau. Darperir y rhan fwyaf o'r protocolau gan y gwahanol Fyrddau Iechyd sy'n cefnogi'r ddarpariaeth, e.e. Betsi Cadwaladr	Yn Cydymffurfio
AGWEDDAU YMARFEROL	5 (3)	Caiff y cyflogwr neu'r ymarferydd, fel sy'n briodol, neilltuo agweddau ymarferol ar ddatguddiad meddygol neu ran ohono, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i un neu fwy o unigolion sydd â'r hawl i weithredu yn hyn o beth mewn maes arbenigol cydnabyddedig.	Gweithdrefn C, a chadarnhawyd hyn trwy drafod â'r staff yn y safle	Yn Cydymffurfio
	5 (4)	Y gweithredwr fydd yn gyfrifol am bob un agwedd ymarferol a weithredir ganddo, yn ogystal ag am unrhyw awdurdodiad a roddir yn unol â rheoliad 6(5) pan na wneir awdurdodiad o'r fath yn unol â'r canllawiau y cyfeirir atynt yn rheoliad 6(5).	Gweithdrefn C, a chadarnhawyd hyn trwy drafod â'r staff yn y safle	Yn Cydymffurfio

Atodiad B	Rheoliad	Tystiolaeth	Cydymffurfiad
	5 (6)	Rhaid i'r ymarferydd a'r gweithredwr gydweithredu, ynglŷn ag agweddau ymarferol, gydag arbenigwyr eraill a'r staff sy'n ymwneud â datguddiad meddygol, fel sy'n briodol.	Gweithdrefn C, a chadarnhawyd hyn trwy drafod â'r staff yn y safle	Yn Cydymffurfio
HYFFORDDIANT	11 (1)	Yn amodol ar ddarpariaethau canlynol y rheoliad hwn, ni chaiff unrhyw ymarferydd na gweithredwr gynnal datguddiad meddygol nac unrhyw agwedd ymarferol heb ei fod wedi cael hyfforddiant digonol.	Gweithdrefn C, a chadarnhawyd hyn yn y safle trwy gofnodion hyfforddi cynhwysfawr. Mae angen sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant digonol ar gyfer cynnal archwiliadau deintyddol ar du mewn y geg yn Adran Radioleg Ysbyty Coffa'r Rhyfel Aberhonddu	Angen gwelliannau
	11 (2)	Rhaid i dystysgrif a gyflwynir gan sefydliad neu unigolyn cymwys i ddyfarnu graddau neu ddiplomâu neu i ddarparu tystiolaeth arall o hyfforddiant, os bydd tystysgrif o'r fath yn ardystio hynny, fod yn brawf digonol fod yr unigolyn y'i cyflwynwyd iddo wedi cael hyfforddiant digonol.	Gweithdrefn C Ymarferwyr a Gweithredwyr Dan ddyletswydd Cyfarwyddwr AD	Yn Cydymffurfio
	11 (4)	Rhaid i'r cyflogwr gadw, a sicrhau ei fod ar gael i'w arolygu gan yr awdurdod priodol, cofnod wedi ei ddiweddaru o'r holl hyfforddiant a ddilynwyd gan bob ymarferydd a gweithredwr a gyflogir ganddo i gynnal datguddiadau meddygol neu unrhyw agwedd ymarferol ar ddatguddiadau o'r fath, neu, pan fo'r cyflogwr yn ymarferydd ac yn weithredwr ar yr un pryd, o'i hyfforddiant ef ei hun, gan ddangos y dyddiad neu'r dyddiadau y cwblhawyd hyfforddiant sy'n gymwys fel hyfforddiant digonol, yn ogystal â natur yr hyfforddiant.	Gweithdrefn C Ymarferwyr a Gweithredwyr Mae'n ymddangos ei bod yn ymwneud â radiograffyddion yn unig. Mae angen cofnodi darpariaethau ar gyfer pob grŵp staff arall (e.e. radiolegwyr a deintyddion) yn y gweithdrefnau. Darparwyd cofnodion hyfforddiant ar gyfer radiograffyddion a deintyddion, ac roedd y rhain yn gynhwysfawr ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda	Yn Cydymffurfio
	11 (5)	Pan fo'r cyflogwr yn gwneud cytundeb gyda chyflogwr arall i gyflogi ymarferydd neu weithredwr sydd fel arall wedi ei gyflogi gan yr un arall, yr olaf fydd yn gyfrifol am gadw'r cofnodion sy'n ofynnol dan baragraff (4), a bydd yn rhaid iddo ddarparu cofnodion o'r fath i'r cyflogwr yn ddi-oed, ar gais.	Gweithdrefn C Ymarferwyr a Gweithredwyr	Yn Cydymffurfio

Atodiad B	Rheoliad	Tystiolaeth	Cydymffurfiad
	4 (4) a	Rhaid i'r cyflogwr gymryd camau i sicrhau bod pob ymarferydd neu weithredwr a gyflogir ganddo i gynnal datguddiadau meddygol, neu unrhyw agwedd ymarferol ar ddatguddiadau o'r fath, yn cydymffurfio â darpariaethau rheoliad11(1); ac	Gweithdrefn C a dogfennau hyfforddiant a ddarparwyd ym mhob safle	Yn Cydymffurfio
	4 (4) b	yn dilyn addysg a hyfforddiant parhaus ar ôl cymhwyso, gan gynnwys, yn achos defnyddio technegau newydd at ddibenion clinigol, hyfforddiant sy'n ymwneud â'r technegau hyn a'r gofynion perthnasol ar gyfer diogelu rhag ymbelydredd; neu	Darparwyd dogfennau hyfforddiant	Yn Cydymffurfio
	11 (3)	Ni chaiff unrhyw beth ym mharagraff (1) uchod atal unigolyn rhag cymryd rhan mewn agweddau ymarferol ar y driniaeth fel rhan o'r hyfforddiant ymarferol, os gwneir hyn dan oruchwyliaeth unigolyn sydd ei hun wedi cael hyfforddiant digonol.	Heb ei grybwyll	Angen gwelliannau
OPTIMEIDDIO (ac eithrio meddygol-gyfreithiol, beichiogrwydd a bwydo ar y fron)	7 (7) b	Optimeiddio – rhaid i'r ymarferydd a'r gweithredwr roi sylw arbennig i – ddatguddiadau meddygol ar gyfer plant;	Darparwyd siartiau datguddiadau Pediatrig gan y Byrddau Iechyd sy'n cefnogi'r ddarpariaeth. Fe'n hysbyswyd bod radiolegydd pediatrig yn cyfrannu at ysgrifennu'r rhain yn y Trallwng.	Yn Cydymffurfio
	7 (7) c	Optimeiddio - rhaid i'r ymarferydd a'r gweithredwr roi sylw arbennig i - ddatguddiadau meddygol sy'n rhan o raglen sgrinio iechyd;	Amherthnasol	
	7 (7) d	Optimeiddio – rhaid i'r ymarferydd a'r gweithredwr roi sylw arbennig i – ddatguddiadau meddygol sy'n cynnwys rhoi dosau uchel i'r claf;	Amherthnasol	

Atodiad B		Rheoliad	Tystiolaeth	Cydymffurfiad
ASESU DOSAU	Atodlen 1f)	gweithdrefnau wedi eu sefydlu ar gyfer asesu dos y claf, a'r gweithgaredd a gynhelir;	Gweithdrefn H Mae angen i'r hyn a gofnodir ar gyfer pob math o archwiliad fod yn eglur Mae angen cadarnhau bod deintyddion yn gallu cydymffurfio â'r weithdrefn hon	Yn Cydymffurfio
	7 (3) b	rhaid i'r gweithredwr ddewis offer a dulliau ar gyfer sicrhau bod y ddos o ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer pob datguddiad meddygol a roddir i'r unigolyn sy'n cael y datguddiad mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol, a'i bod yn gyson â'r diben diagnostig neu therapiwtig a fwriedir, ac wrth wneud hynny, mae'n rhaid iddo roi sylw arbennig i - asesu dos y claf neu'r gweithgaredd a gynhelir;	Amherthnasol, gan mai un darn o offer yn unig sydd ar gael ym mhob safle	Yn Cydymffurfio
YMCHWIL	Atodlen 1h)	gweithdrefnau ar gyfer penderfynu a yw'n ofynnol i'r ymarferydd neu'r gweithredwr roi ar waith un neu fwy o'r materion a nodir yn rheoliad 7(4), gan gynnwys y meini prawf ar sut i roi'r materion hynny ar waith, ac yn enwedig gweithdrefnau ar gyfer defnyddio'r cyfyngiadau ar ddosau a sefydlwyd gan y cyflogwr ar gyfer rhaglenni ymchwil fiomeddygol a meddygol y mae rheoliad 3(d) yn berthnasol iddynt lle na ddisgwylir i'r unigolyn gael unrhyw fudd meddygol uniongyrchol o ganlyniad i'r datguddiad;	Gweithdrefn K	Yn Cydymffurfio
	4 (3) d	(rhaid i'r cyflogwr sefydlu) cyfyngiadau ar ddosau ar gyfer rhaglenni ymchwil fiomeddygol a meddygol y mae rheoliad 3(d) yn berthnasol iddynt lle na ddisgwylir i'r unigolyn gael unrhyw fudd meddygol uniongyrchol o ganlyniad i'r datguddiad.	Gweithdrefn K 2	Yn Cydymffurfio
	6 (1) c	Ni chaiff unrhyw unigolyn gynnal datguddiad meddygol ac eithrio – mewn achosion o ddatguddiad meddygol neu fiomeddygol fel y cyfeirir ato yn rheoliad 3(d), pan mae wedi ei gymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg;	Gweithdrefn K 1	Yn Cydymffurfio
	6 (3) b	Rhaid i'r ymarferydd sy'n cyfiawnhau datguddiad yn unol â pharagraff (1)(a) roi sylw arbennig i – ddatguddiad nad oes ganddo unrhyw fudd uniongyrchol i iechyd yr unigolyn sy'n cael y datguddiad	Gweithdrefn F 3	Yn Cydymffurfio
	7 (4) a	Ar gyfer pob rhaglen ymchwil feddygol neu fiomeddygol y mae rheoliad 3(d) yn berthnasol iddi, rhaid i weithdrefnau'r cyflogwr ddarparu – bod yr unigolion dan sylw yn cymryd rhan yn wirfoddol yn y rhaglen ymchwil;	Gweithdrefn K 5	Yn Cydymffurfio
	7 (4) b	bod yr unigolion dan sylw yn cael eu hysbysu ymlaen llaw am risgiau'r datguddiad;	Gweithdrefn K 5	Yn Cydymffurfio

Atodiad B	Rheoliad	Tystiolaeth	Cydymffurfiad
	7 (4) c	y cydymffurfir â chyfyngiad y ddos a nodir yng ngweithdrefnau'r cyflogwr ar gyfer unigolion na ddisgwylir iddynt gael unrhyw fudd meddygol uniongyrchol o ganlyniad i'r datguddiad; a	Gweithdrefn K 3	Yn Cydymffurfio
	7 (4) d	bod yr ymarferydd yn cynllunio lefelau targed unigol ar gyfer dosau i gleifion sy'n cymryd rhan wirfoddol mewn arfer diagnostig neu therapiwtig arbrofol y disgwylir i'r cleifion gael budd diagnostig neu therapiwtig ohono.	Gweithdrefn K 4	Yn Cydymffurfio
MEDDYGOL-GYFREITHIOL	Atodlen 1c)	gweithdrefnau i'w dilyn yn achos datguddiadau meddygol-gyfreithiol;	Gweithdrefn E Mae'r weithdrefn hon yn cynnwys mwy na datguddiadau meddygol-gyfreithiol yn unig.	Yn Cydymffurfio
	6 (1) d	Ni chaiff unrhyw unigolyn gynnal datguddiad meddygol oni bai – yn achos datguddiad y mae rheoliad 3(e) yn berthnasol iddo, ei fod yn cydymffurfio â gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer datguddiadau o'r fath; ac	Gweithdrefn E	Yn Cydymffurfio
	6 (3) a	mae'n rhaid i'r ymarferydd sy'n cyfiawnhau datguddiad yn unol â pharagraff (1)(a) roi sylw arbennig i – ddatguddiadau ar sail feddygol-gyfreithiol;	Gweithdrefn E 2^{il} a 4^{ydd} paragraff Gweithdrefn F 3	Yn Cydymffurfio
	7 (7) a	Optimeiddio – rhaid i'r ymarferydd a'r gweithredwr roi sylw arbennig i'r ffaith – fod angen cadw dosau sy'n deillio o ddatguddiadau meddygol-gyfreithiol mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol;	Heb ei grybwyll	Angen gwelliannau

Atodiad B	Rheoliad	Tystiolaeth	Cydymffurfiad
CYFARWYDDIADAU YSGRIFENEDIG AR GYFER MEDDYGAETH NIWCLEAR	Atodlen 1i)	gweithdrefnau ar gyfer darparu gwybodaeth a chanllawiau ysgrifenedig, fel y cyfeirir atynt yn 7(5);	Amherthnasol	
	7 (5) a	yn achos cleifion sy'n cael triniaeth neu ddiagnosis â chynhyrchion meddyginiaethol ymbelydrol, mae'n rhaid i weithdrefnau'r cyflogwr ddarparu ar gyfer rhoi cyfarwyddiadau a gwybodaeth ysgrifenedig, pan fo hynny'n briodol, i'r – claf, pan fo ganddo'r galluedd i gytuno i gael triniaeth neu driniaeth ddiagnostig; neu	Amherthnasol	
	7 (5) b	pan fo'r claf yn blentyn nad oes ganddo'r galluedd i gytuno i hynny, yr unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn; neu	Amherthnasol	
	7 (5) c	pan fo'r claf yn oedolyn nad oes ganddo'r galluedd i gytuno i hynny, yr unigolyn sy'n ymddangos i'r ymarferydd fel yr unigolyn mwyaf priodol.	Amherthnasol	
	7 (6) a	rhaid i'r cyfarwyddiadau a'r wybodaeth y cyfeirir atynt yn 7 (5) – nodi sut y gall dosau sy'n deillio o ddatguddiad y claf gael eu cyfyngu cyn belled ag sy'n rhesymol bosibl, er mwyn diogelu unigolion sydd mewn cyffyrddiad â'r claf;	Amherthnasol	
	7 (6) b	rhaid i'r cyfarwyddiadau a'r wybodaeth y cyfeirir atynt yn 7 (5) – nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ymbelydredd ïoneiddio; a	Amherthnasol	
	7 (6) c	rhaid i'r cyfarwyddiadau a'r wybodaeth y cyfeirir atynt yn 7 (5) – gael eu darparu i'r claf neu i'r unigolyn arall a nodir ym mharagraff (5), fel sy'n briodol, cyn i'r claf adael yr ysbyty, neu'r man arall lle y cynhaliwyd y datguddiad meddygol.	Amherthnasol	

Atodiad B	Rheoliad	Tystiolaeth	Cydymffurfiad
LEFELAU CYFEIRIADAU DIAGNOSTIG	Atodlen 1g)	gweithdrefnau a sefydlwyd gan y cyflogwr er mwyn defnyddio lefelau cyfeirio diagnostig ar gyfer archwiliadau radioddiagnostig y mae rheoliad 3(a), (b), (c) a (e) yn berthnasol iddynt, sy'n nodi y disgwylir na fydd lefelau uwch na'r rhain yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithdrefnau safonol pan ddilynir arfer da a chyffredin o ran perfformiad diagnostig a thechnegol;	Gweithdrefn I paragraff 1af	Yn Cydymffurfio
	4 (3) c	(rhaid i'r cyflogwr sefydlu) lefelau cyfeirio diagnostig ar gyfer archwiliadau radioddiagnostig y mae rheoliad 3(a), (b), (c) and (e) yn berthnasol iddynt gan ystyried lefelau cyfeirio diagnostig Ewropeaidd pan fo'r rhain ar gael;	Gweithdrefn I paragraff 1af	Yn Cydymffurfio
	4 (6)	rhaid i'r cyflogwr gynnal adolygiadau priodol pa bryd bynnag yr eir yn gyson uwch na'r lefelau cyfeirio diagnostig, a sicrhau y cymerir camau unioni pan fo hynny'n briodol.	Gweithdrefn I 2	Yn Cydymffurfio
	7 (3) c	rhaid i'r gweithredwr ddewis offer a dulliau ar gyfer sicrhau, yn achos pob datguddiad meddygol, bod y ddos o ymbelydredd ïoneiddio a roddir i'r unigolyn sy'n cael y datguddiad mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol, a'i bod yn gyson â'r diben diagnostig neu therapiwtig a fwriedir, ac wrth wneud hynny, mae'n rhaid iddo roi sylw arbennig i – gydymffurfiad â lefelau cyfeirio diagnostig ar gyfer archwiliadau radioddiagnostig y mae rheoliad 3(a), (b), (c), ac (e) yn berthnasol iddynt, fel y'u nodir yng ngweithdrefnau'r cyflogwr.	Amherthnasol, gan mai un darn o offer yn unig sydd ar gael ym mhob safle	Yn Cydymffurfio
ADRODD AM DDIGWYDDIADAU	4 (5)	Pan fo'r cyflogwr yn gwybod, neu fod ganddo reswm i gredu y bu, neu efallai y bu, digwyddiad lle y cafodd unigolyn, tra oedd yn cael datguddiad meddygol, ei ddatguddio i lawer mwy o ymbelydredd ïoneiddio nag a fwriadwyd, oni bai bod hynny oherwydd nad oedd yr offer yn gweithio neu ei fod yn ddiffygiol, mae'n rhaid iddo gynnal ymchwiliad cychwynnol yn ddi-oed i'r digwyddiad, ac, oni bai bod yr ymchwiliad yn dangos y tu hwnt i unrhyw amheuaeth resymol na fu unrhyw ddigwyddiad o'r fath, rhaid iddo hysbysu'r awdurdod priodol ar unwaith, a chynnal neu drefnu ymchwiliad manwl i amgylchiadau'r datguddiad, yn ogystal ag asesu'r ddos a dderbyniwyd.	Gweithdrefn J Mae angen ystyried enw'r weithdrefn hon er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r cynnwys. Mae angen i'r weithdrefn hefyd adlewyrchu dyletswyddau'r MPE, yn ogystal â rhai'r RPA. 7. angen adlewyrchu'r gwahanol ffactorau lluosi ar gyfer adrodd am ddatguddiadau MGTI wrth HSE neu AGIC	Yn Cydymffurfio

Atodiad B		Rheoliad	Tystiolaeth	Cydymffurfiad
GWERTHUSO CLINIGOL	Atodlen 1j)	gweithdrefnau ar gyfer cynnal a chofnodi gwerthusiad ar gyfer pob datguddiad meddygol, gan gynnwys, pan fo'n briodol, ffactorau sy'n berthnasol i ddos y claf;	Gweithdrefn G Mae angen i'r weithdrefn hon adlewyrchu'r holl arferion yn y Bwrdd Iechyd, e.e. radiograffydd yn adrodd Mae angen i hawliau'r staff fel gweithredwyr ar gyfer gwerthusiadau clinigol fod yn eglur, gan yr awgrymir y gallai hyn fod yn gyfrifoldeb yr atgyfeiriwr mewn rhai sefyllfaoedd	Yn Cydymffurfio
	7 (8)	Rhaid i'r cyflogwr gymryd camau i sicrhau y cofnodir gwerthusiad clinigol o ganlyniad pob datguddiad meddygol, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, neu, pan fo'r cyflogwr yn ymarferydd neu'n weithredwr ar yr un pryd, rhaid iddo gofnodi gwerthusiad clinigol, gan gynnwys, pan fo'n briodol, ffactorau sy'n berthnasol i ddos y claf.	Gweithdrefnau G 1 a 5	Yn Cydymffurfio
ARBENIGWR FFISEG FEDDYGOL	9 (1)	Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod arbenigwr ffiseg feddygol yn cymryd rhan ym mhob datguddiad meddygol y mae'r Rheoliadau hyn yn berthnasol iddynt, yn unol â pharagraff (2).	Trefniadau Gweithredu Safonol mewn Radioleg – Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr Gwelwyd yn ystod yr arolygiad bod 3ydd partïon yn darparu cymorth Ffiseg Feddygol. Gwnaethant gadarnhau mai MPEau oedd eu swyddogaeth	Yn Cydymffurfio
	9 (2) a	Rhaid i arbenigwr ffiseg feddygol - gymryd rhan fanwl ym mhob arfer radiotherapiwtig heblaw am arferion meddygaeth niwclear therapiwtig safonol;	Amherthnasol	
	9 (2) b	Rhaid i arbenigwr ffiseg ffeddygol fod – ar gael pan gynhelir arferion meddygaeth niwclear therapiwtig safonol ac arferion meddygaeth niwclear diagnostig;	Amherthnasol	
	9 (2) c	Rhaid i arbenigwr ffiseg feddygol – gymryd rhan, fel sy'n briodol, mewn ymgynghori ar optimeiddio, gan gynnwys mesur dos ymbelydredd y cleifion a sicrhau ansawdd, yn ogystal â rhoi cyngor ar faterion sy'n ymwneud â diogelu rhag ymbelydredd o ran datguddiad meddygol, fel sy'n ofynnol, yn ystod pob arfer radiolegol arall.	Trafodwyd cymorth â radiograffyddion a ffisegyddion meddygol yn y safle	Yn Cydymffurfio

Atodiad B	Rheoliad	Tystiolaeth	Cydymffurfiad
TEBYGOLRWYDD A MAINT	Atodlen 1k)	gweithdrefnau i sicrhau bod tebygolrwydd a maint dosau damweiniol neu anfwriadol i gleifion o ganlynaid i arferion radiolegol yn cael eu lleihau cymaint ag sy'n rhesymol ymarferol.	Er bod elfennau ar gael trwy'r gweithdrefnau eraill, nid oedd gweithdrefn unigol wedi ei sefydlu	Angen gwelliannau
SICRHAU ANSAWDD AC ARCHWILIO	Atodlen 1e)	gweithdrefnau i sicrhau y dilynir rhaglenni sicrhau ansawdd;	Gweithdrefn M 3 Mae'r rhain yn nodi bod angen cynnal un archwiliad SOP y flwyddyn. Dylid ystyried pa mor aml y mae angen cynnal y rhain. Roedd tystiolaeth dda ar gael o gynnal archwiliadau ar y drefn o gwblhau cardiau cais, ymholiadau LMP a'r dosau a gofnodir yn y safle, ond mae angen cofnodi hyn	I Angen gwelliannau
	4 (3) b	(rhaid i'r cyflogwr sefydlu) rhaglenni sicrhau ansawdd ar gyfer trefniadau gweithredu safonol;	Gweithdrefn M 3	Yn Cydymffurfio
	8	rhaid i weithdrefnau'r cyflogwr gynnwys darpariaeth ar gyfer cynnal archwiliad clinigol, fel sy'n briodol.	Gweithdrefn G 6 Gweithdrefn H 4 Gweithdrefnau I 2 a 3 Mae angen i'r rhain adlewyrchu pa mor aml y cynhelir yr archwiliadau, pwy sy'n gyfrifol am gynnal y rhain, ac i bwy yr adroddir am y canlyniadau.	Yn Cydymffurfio

Atodiad B	Rheoliad		Tystiolaeth	Cydymffurfiad
	7 (3) a	rhaid i'r gweithredwr ddewis offer a dulliau ar gyfer sicrhau bod y ddos o ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer pob datguddiad meddygol a roddir i'r unigolyn sy'n cael y datguddiad mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol, a'i bod yn gyson â'r diben diagnostig neu therapiwtig a fwriedir, ac wrth wneud hynny, mae'n rhaid iddo roi sylw arbennig i – sicrhau ansawdd	Amherthnasol, gan mai un darn o offer yn unig sydd ar gael ym mhob safle	Yn Cydymffurfio
OFFER	10 (1)	Bob tro y gosodir offer radiolegol, rhaid i'r cyflogwr lunio, diweddaru a chadw rhestr o'r offer a osodwyd yn y lleoliad hwnnw, ac mae'n rhaid iddo ei rhoi i'r awdurdod priodol, ar gais.	Fe'i darparwyd gan y Bwrdd Iechyd yn y safle	Yn Cydymffurfio
	10 (2)	Rhaid i'r rhestr offer y cyfeiriwyd ati ym mharagraff (1) gynnwys y wybodaeth ganlynol (a) enw'r gwneuthurwr (b rhif y model (c) y rhif cyfresol neu ddynodwr unigryw arall (d) blwyddyn cynhyrchu'r offer a (e) blwyddyn gosod yr offer	Darparwyd Gweithdrefn K a Rhestr Offer yn y safle	Yn Cydymffurfio
	10 (3)	Bob tro y gosodir offer radiolegol, rhaid i'r cyflogwr sicrhau y cyfyngir yr offer i'r hyn sydd ei angen ar gyfer cynnal datguddiadau meddygol yn briodol yn y lleoliad hwnnw.	Mae uned ddeintyddiaeth yn adran radioleg Ysbyty Coffa'r Rhyfel Aberhonddu nas defnyddir yn aml. Nid yw'n eglur sut y mae'r gweithredwyr yn gallu parhau i fod yn gymwys ac wedi eu hyfforddi'n ddigonol yn yr uned hon. Fe'n hysbyswyd bod unedau deintyddiaeth ddigidol ar gael yn Ysbyty Coffa'r Rhyfel Aberhonddu, ac y defnyddir y rhain gan weithredwyr sy'n cynnal yr archwiliadau hyn yn rheolaidd. Mae angen ystyried pa un a ddylid parhau i ddefnyddio'r peiriant hwn.	Angen gwelliannau
	4 (1) b	Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefnau ysgrifenedig wedi eu sefydlu ar gyfer datguddiadau meddygol, gan gynnwys y gweithdrefnau a nodir yn Atodlen 1, a - phan fo'r cyflogwr yn ymarferydd ac yn weithredwr ar yr un pryd, rhaid iddo gydymffurfio â'r gweithdrefnau hyn ei hun.	Amherthnasol	
	4 (4) c	Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefnau ysgrifenedig wedi eu sefydlu ar gyfer datguddiadau meddygol, gan gynnwys y gweithdrefnau a nodir yn Atodlen 1, a - phan fo'r cyflogwr yn ymarferydd ac yn weithredwr ar yr un pryd, mae'n rhaid iddo ef ei hun sicrhau ei fod yn dilyn addysg a hyfforddiant parhaus a phriodol.	Amherthnasol	

Atodiad B	Rheoliad	Tystiolaeth	Cydymffurfiad
	5 (1)	Rhaid i'r ymarferydd a'r gweithredwr gydymffurfio â gweithdrefnau'r cyflogwr	Trefniadau Gweithredu Safonol mewn Radiograffeg (tudalen 7)	Yn Cydymffurfio
	5 (7)	Er mwyn osgoi amwysedd, pan fod unigolyn yn gweithredu fel cyflogwr, atgyfeiriwr, ymarferydd a gweithredwr ar yr un pryd (neu mewn unrhyw gyfuniad o'r swyddogaethau hyn), mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r holl ddyletswyddau a osodir ar gyflogwyr, atgyfeirwyr, ymarferwyr neu weithredwyr dan y Rheoliadau hyn, yn unol â hynny.	Amherthnasol	
	7 (1)	O ran pob datguddiad meddygol sy'n dod dan y Rheoliadau hyn, ac eithrio triniaethau radiotherapiwtig, rhaid i'r ymarferydd a'r gweithredwr, hyd eithaf eu swyddogaeth eu hunain yn y datguddiad meddygol, sicrhau bod y dosau sy'n deillio o'r datguddiad yn cael eu cadw mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol a'u bod yn gyson â'r diben a fwriedir.	Dangoswyd y gwneir hyn yn y safle, a thrwy drafod â'r staff	Yn Cydymffurfio
	7 (2)	O ran pob datguddiad meddygol at ddibenion radiotherapiwtig, mae'n rhaid i'r ymarferydd sicrhau bod datguddiadau cyfeintiau targed yn cael eu cynllunio'n unigol, gan ystyried bod yn rhaid i ddosau cyfeintiau a meinweoedd nas targedir fod mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol a bod yn gyson â diben radiotherapiwtig bwriadol y datguddiad.	Amherthnasol	
	7 (9)	Yn achos fflworosgopeg - (a) rhaid i'r gweithredwr sicrhau mai dim ond mewn amgylchiadau a gyfiawnheir y cynhelir archwiliadau heb ddyfeisiau i reoli graddfa'r ddos; ac (b) ni chaiff unrhyw unigolyn gynnal archwiliad heb dechneg dwysáu delweddau neu dechneg gyfatebol.	Rhestr Eiddo, a chadarnhawyd hyn yn y safle	Yn Cydymffurfio